

Cyngor Sir CEREDIGION County Council

ADRODDIAD I'R: Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau sy'n Dysgu

DYDDIAD: 15 Rhagfyr 2021

LLEOLIAD: Rhithiol

TEITL: Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg

DIBEN YR ADRODDIAD: Er gwybodaeth

**Y RHESWM PAM FOD Y
PWYLLGOR CRAFFU
WEDI GOFYN AM Y
WYBODAETH:** Diweddariad

CEFNDIR:

Mae'n statudol bod pob Awdurdod Lleol yn paratoi Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg ar gyfer y ddegawd 2022-2032.

Ar 15fed Mehefin 2021, cafodd Gynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg Ceredigion (drafft) ganiatâd y Cabinet i fynd i ymgynghori am gyfnod o wyth wythnos. Er mwyn osgoi ymgynghori dros wyliau'r Haf, fe gychwynnodd yr ymgynghoriad ar 20fed Medi gan gau ar 12fed Tachwedd 2021.

Er mwyn ymateb yn llawn a manwl i'r sylwadau a gyflwynwyd yn ystod yr ymgynghoriad mae angen i'r ddogfen 'Categorioidio Ysgolion yn ôl y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg' gan ei chyhoeddi gan Lywodraeth Cymru. Cyhoeddwyd copi drafft o'r ddogfen hon yn Rhagfyr 2020 ar gyfer cyfnod ymgynghori. Serch hyn, nid yw'r copi terfynol wedi'i gyhoeddi eto, er y disgwylir hynny cyn diwedd blwyddyn galendr 2021. Bydd cynnwys y ddogfen hon yn allweddol wrth gynnig ymateb i ymgynghoriad Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg yng Ngheredigion.

Bydd amserlen wreiddiol cyflwyno sylwadau'r ymgynghoriad a'r ymateb iddynt yn cael ei haddasu felly o ganlyniad i'r uchod. Bellach, bydd y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau sy'n Dysgu yn derbyn yr ymateb i'r ymgynghoriad ar 17eg Chwefror, gyda'r Cabinet yn derbyn yr adroddiad ar 22ain Chwefror 2022.

**LLESIANT
CENEDLAETHAU'R
DYFODOL:**

**A oes Aseiad Effaith Integredig Nac oes
wedi'i gwblhau? Os na, nodwch
pam
Crynodeb:**

Hirdymor:
Integreiddio:
Cydweithio:
Cynnwys:
Atal:

ARGYMHELLIAD

Er gwybodaeth

Y RHESWM DROS YR ARGYMHELLIAD:

Er gwybodaeth

Enw Cyswllt:	Meinir Ebbsworth
Swydd:	Prif Swyddog Addysg
Dyddiad yr Adroddiad:	15 Rhagfyr 2021
Acronymau:	